| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | **Pwyllgor Craffu Cymunedau** |
| **Dyddiad y cyfarfod** | **15 Mai 2025** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Liz Grieve, Pennaeth Tai a Chymunedau** |
| **Awdur yr adroddiad** | **Geoff Davies, Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol** |
| **Teitl** | **Ymateb brys i denantiaid diamddiffyn sy'n colli gwres yn eu cartrefi** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Amlinellu pa gefnogaeth sydd ar gael i denantiaid y Cyngor pan fydd digwyddiadau ac achosion brys yn tarfu

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Ymateb i'r cais am wybodaeth am ba ddarpariaeth sydd ar gael i denantiaid diamddiffyn sydd â dim ond trydan fel eu prif ffynhonnell gwres.

2.2 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys manylion am y gefnogaeth a ddarperir gan y gwasanaeth Tai Cymunedol ac Eiddo i denantiaid a chymunedau, mewn cyd-destun ehangach.

## 3. Beth yw'r Argymhelliad?

3.1 Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen yr adroddiad ac wedi ei ddeall, ac i roi sylwadau arno os oes angen.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae Tai Cymunedol / Eiddo yn darparu cefnogaeth i'n tenantiaid ac aelwydydd bob dydd. Mae hyn yn amrywio o gefnogaeth unigol â materion tai, i

ddigwyddiadau bywyd cyffredinol ac achosion brys sy’n digwydd ym mywydau pobl. Gall y rhain amrywio’n fawr, gan gynnwys cam-drin domestig, trosedd, tân a phrofedigaeth.

4.2 Rydym hefyd yn darparu cefnogaeth i gymunedau ac mae gennym hanes o gefnogi grwpiau o denantiaid neu gymunedau drwy ddigwyddiadau arwyddocaol megis llifogydd lleol a digwyddiad mawr, sef pandemig 2020.

4.3 Mae gwasanaeth brys y tu allan i oriau 24/7 ar gael yn ystod y gyda’r nos a phenwythnosau i’n tenantiaid, sy’n cynnwys staff a chontractwyr sy’n gallu delio ag ystod eang o achosion brys.

4.4 Y digwyddiad brys mawr mwyaf cyffredin posibl yw llifogydd yn Llanelwy. Mae hyn yn effeithio ar Lys y Felin, cynllun ar gyfer pobl hŷn yn agos at Afon Elwy. Er bod gwelliannau mawr wedi cael eu cwblhau gan Gyfoeth Naturiol Cymru i amddiffyn rhag llifogydd, rydym yn parhau i fonitro’r perygl o lifogydd yn yr ardal hon, cyn ac yn ystod cyfnodau o dywydd garw a stormydd. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod staff ar gael i ymweld â phreswylwyr a’u cefnogi ag amddiffynfeydd unigol ac i baratoi rhag ofn y bydd angen gwagio cartrefi. Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru yn dilyn digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd i leihau’r perygl y byddant yn digwydd eto.

4.5 Rydym yn gweithio’n agos gyda thimau Cynllunio Rhag Argyfwng y Cyngor yn ystod digwyddiadau fel llifogydd. Byddai system Cynllunio Rhag Argyfwng y Cyngor hefyd yn cefnogi cymunedau mewn digwyddiadau mawr fel colli trydan.

4.6 Y rhwydwaith cyfleustodau a darparwyr sy’n gyfrifol am arwain pan fydd toriadau pŵer. Mae’r “Cynllun Toriad Trydan a Chyfleustodau Cyffredinol” yn ymdrin â’r ymateb. Fforwm Cymru Gydnerth y Gogledd sy’n arwain ar y cynllun ac mae’n cael ei reoli gan Grŵp Isadeiledd a Pharodrwydd Logistaidd y Fforwm.

4.7 Mae’r cynllun yn amlinellu cyfrifoldeb Scottish Power am yr isadeiledd trydanol ac i adfer y cyflenwad cyn gynted â phosibl. Mae’r cynllun hefyd yn cynnwys manylion y cynlluniau wrth gefn ar gyfer cefnogi cymunedau a chyfathrebu. Mae sefydliadau fel y Groes Goch Brydeinig yn bartneriaid yn y cynllun ac ymgysylltir â nhw os bydd toriad trydan mawr ac estynedig yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys anfon cerbydau cefnogi cwsmeriaid i ddanfon blancedi a lluniaeth ac i roi cyngor i gymunedau.

4.8 Gall y cwsmeriaid hynny sydd angen gofal a chefnogaeth ychwanegol yn ystod toriad trydan gofrestru â'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth. Rydym wedi rhannu rhestr o gyfeiriadau gyda'r Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol. Mae hyn yn seiliedig ar gynlluniau'n benodol i bobl hŷn.

4.9 Gallai'r Cyngor a hefyd Tai Cymunedol, ddefnyddio ein cofrestrau ein hunain o bobl yn ein cymunedau sydd angen cefnogaeth ychwanegol a byddai ein staff ein hunain yn cysylltu a chynnig cefnogaeth. Mae gennym hefyd gofrestr o gwsmeriaid diamddiffyn sy'n byw yn y stoc dai gyffredinol un ai ar eu pennau eu hunain neu mewn aelwyd. Byddem yn targedu'r aelwydydd hyn mewn achosion brys.

4.10 Pe bai toriad pŵer hir yn digwydd o fewn ein stoc dai a hwnnw'n lleol, sef yn effeithio ar un cynllun neu stryd, byddem yn rhoi gweithdrefnau cynllunio brys ar waith i agor canolfan orffwys mor agos â phosibl, er mwyn darparu lle cynnes a bwyd a diod poeth.

4.11 Pe bai'r toriad yn effeithio ar ardal llawer mwy, byddem yn rhan o ymateb partneriaeth ehangach ar gyfer yr holl breswylwyr a effeithiwyd. Byddem yn darparu blancedi ychwanegol i unrhyw un sydd eu hangen er enghraifft, ond yn gweithio gyda phartneriaid cynllunio rhag argyfwng ehangach i ddarparu lluniaeth poeth mewn cymunedau. Byddai staff tai'n targedu tenantiaid i sicrhau ein bod yn cyfathrebu'n eang. Fel y soniwyd eisoes, byddai'r Groes Goch Brydeinig yn bartner allweddol i gefnogi cymunedau.

4.12 Yr unig systemau gwresogi na fyddai'n cael eu heffeithio gan doriad pŵer fyddai tanau tanwydd solet a rhai sy'n cael eu cynnal â phaneli solar â batris.

## Ein dull o adnabod ein cwsmeriaid

4.13 Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r ffordd rydym yn rheoli'r wybodaeth sydd gennym am ein cwsmeriaid, ac o ganlyniad, wedi datblygu strategaeth ddata a chynllun gweithredu. Mae'r camau gweithredu cychwynnol yn canolbwyntio ar dargedu'r bylchau yn ein data am aelwydydd. Nid yw'n broses syml i gadw darlun cyfredol o aelwydydd, gan fod yr amgylchiadau mewn aelwydydd yn newid bob dydd.

4.14 Hefyd, mae gennym brosiect fydd yn ein helpu i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well, i'n helpu i ddatblygu darlun mwy o'n haelwydydd a'r

cymunedau maent yn byw ynddynt. Bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu maes o law.

4.15 Mae swyddi ein Swyddogion Tai bellach yn gwbl gyffredinol, sy'n golygu eu bod yn gallu ymdrin â'r ystod lawn o faterion rheoli tai megis rhent, rheoli tenantiaeth a dyraniadau.

Mae hyn yn golygu fod gan ein Swyddogion Tai y nifer lleiaf bosibl o gartrefi i'w rheoli (250 - 300 o gartrefi) o'i gymharu â'r swyddi Tai mwy arbenigol (800 o gartrefi) oedd gennym cyn hynny. Felly, mae Swyddogion Tai yn meithrin darlun mwy cynhwysfawr o'r tenantiaid yn eu hardal. Rydym yn disgwyl i hyn barhau i ddatblygu.

4.16 Mae'n werth nodi bod adborth gan weithwyr proffesiynol Tai yng Nghymru yn nodi bod staff tai'n teimlo eu bod yn gorfod llenwi bylchau a achosir gan wasanaethau dan bwysau yn fwy a mwy aml, megis gwaith cymdeithasol a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r dull cyffredinol hwn yn golygu ein bod yn fwy ymwybodol o'r problemau posibl mewn aelwyd a'n bod yn gallu dynodi'r bobl fwyaf diamddiffyn yn well.

**Systemau gwresogi a Safonau**

4.17 Dangosir proffil ein systemau gwresogi yn ein stoc dai yn y tabl isod -

| Math | Nifer yr eiddo |
|---|---|
| Nwy | 2890 |
| Pympiau Gwres yr Awyr | 219 |
| Olew | 27 |
| Tanwydd solet (107 Charnwood a 78 aml danwydd - stof goed neu dân agored) | 185 |
| Economi 7 (Gwresogyddion Storio) | 63 |

Bydd y defnydd o systemau gwresogi trydan yn cynyddu wrth i ni osod mwy o systemau sy'n dibynnu llai ar danwydd ffosil a chynyddu'r defnydd o danwydd adnewyddadwy fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru.

**Casgliad**

4.18 Mae'r gwasanaeth Tai yn cefnogi ein tenantiaid o ddydd i ddydd ac mae ganddo wybodaeth briodol am aelwydydd sy'n ddiamddiffyn. Mae gennym wasanaeth 24 / 7 i'n galluogi i ymateb i achosion brys a digwyddiadau. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at brosesau cynllunio rhag argyfwng a rheoli risg

parhaus i sicrhau y gallwn gefnogi ein haelwydydd a'n cymunedau os bydd digwyddiad mawr yn digwydd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1 Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r stoc dai yn cael eu cynnwys yn y Cyfrif Refeniw Tai.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1 Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y risgiau yw ein bod yn methu ag ymateb yn briodol i ddigwyddiad sy'n effeithio ar ein tenantiaid a'u cymunedau.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth yn unig.